


Ffurflen gais

Awdurdodi darparwr hyfforddiant



Darllenwch y cyfarwyddiadau canlynol yn gyntaf:

Cyn cwblhau'r ffurflen hon, darllenwch y canllawiau Mae serenig (*) ar ôl cwestiwn yn golygu bod arweiniad ar gael.

Nodiadau canllaw

Er mwyn darparu hyfforddiant i fodloni gofynion trwyddedu mae angen cymeradwyaeth ar y cwrs ac mae angen awdurdodi'r darparwr hyfforddiant drwy gymeradwyo'r cwrs ac awdurdodi darparwr hyfforddiant. Mae'r cyntaf yn destun proses ymgeisio ar wahân.

Gellir defnyddio ffurflen gais y darparwr hyfforddiant i gael ei hawdurdodi ar gyfer holl ddewisiadau o gyrsiau Rhentu Doeth Cymru neu ar gyfer Datblygiad Perfformiad Parhaus (DPP) yn unig. Os yw'r darparwr wedi'i awdurdodi i ddechrau ar gyfer DPP yn unig, gellir gwneud cais am ychwanegiad. Mae'r awdurdodiad yn ddilys am bum mlynedd o'r dyddiad cymeradwyo.

Mae gan bob math o gais ffi wahanol. Nodir y rhain isod:

Math y cais	Ffi
Awdurdodi darparwyr hyfforddiant – pob opsiwn cwrs	£806
Awdurdodi darparwyr hyfforddiant – DPP yn unig	£392
Awdurdodi darparwyr hyfforddiant – DPP ychwanegiad ar gyfer pob dewis cwrs	£414

Mae'r penawdau isod yn rhoi canllawiau ar y cwestiwn cysylltiedig fel y'i dangosir yn y ffurflen gais

Manylion yr ymgeisydd

Defnyddiwch yr adran hon i roi holl fanylion yr ymgeisydd a'r wybodaeth gohebu. Rhowch rif cofrestru neu gyfeiriad cofrestredig dim ond os ydych yn gwmni neu sefydliad arall.

Gwybodaeth am y cwrs a hyfforddwr y cwrs

Rhestrwch bob cwrs rydych yn bwriadu ei gynnal: Dim ond cyrsiau sydd wedi'u cymeradwyo gan Rhentu Doeth Cymru y cewch eu cynnal fel rhan o broses ymgeisio ar wahân naill ai gennych chi neu rywun arall. Dylech wneud yn siŵr bod yr enw a ysgrifennwch yma'n cyfateb i'r enw a ddefnyddir ir ar unrhyw dystysgrifau hyfforddiant a hefyd enw'r cwrs a gynhaliwyd ar y ffurflen cymeradwyo cwrs.

Beth yw'r cymwysterau a phrofiad gofynnol sydd yr ydych yn eu disgwyl gan eich hyfforddwr: Nodwch y safon ofynnol y byddech chi / eich cwmni yn ei derbyn i hyfforddwr gael ei ddefnyddio at ddibenion Rhentu Doeth Cymru. Dylai hyn gynnwys y profiad perthnasol ac unrhyw gymwysterau mewn sgiliau a phrofiad rheoli eiddo a hyfforddiant. Bydd y safon a osodwyd gennych yn cael ei defnyddio i asesu eich hyfforddwr presennol ac unrhyw hyfforddwr yn y dyfodol yn ystod ymarferion archwilio.

Enw hyfforddwr: Rhowch yr enw llawn ar gyfer pob hyfforddwr / unig fasnachwr sy'n rhan o'ch cais am awdurdodiad darparwr hyfforddiant ar hyn o bryd. I alluogi Rhentu Doeth Cymru i sicrhau bod eich hyfforddwr presennol yn bodloni'r safon ofynnol, mae angen i chi gyflwyno CV ar gyfer yr holl hyfforddwr presennol a PowerPoint enghreifftiol a ddefnyddir i ddarparu unrhyw hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth a gwybodaeth am gymwysterau neu brofiad perthnasol.

Sut byddwch chi'n monitro eich hyfforddwr: Nodwch sut byddwch yn monitro perfformiad eich hyfforddwr, pa gamau y byddech yn eu cymryd i ddelio â pherfformiad gwael. Os nodir perfformiad gwael pa gamau y byddech yn eu cymryd i adolygu a monitro hyfforddwr er mwyn sicrhau safonau uchel o ran cyflwyno a gwasanaethu hyfforddiant.

Sut rydych chi'n adolygu ac yn gweithredu unrhyw adborth a roddir gan y cyfranogwr: Rhowch fanylion y dull a ddefnyddiwch i gasglu, dadansoddi a gweithredu ar adborth cyfranogwr yr hyfforddiant. Dylech gynnwys copi o'r ffurflen(ni) adborth gyda'ch cais.

Polisi preifatrwydd: Drwy lenwi'r ffurflen hon, rydych yn cydsynio i'ch cyrsiau gael eu hysbysebu ar wefan Rhentu Doeth Cymru. I ddarganfod mwy am sut y byddwn yn defnyddio'ch data personol, edrychwch ar y polisi preifatrwydd ar ein gwefan: www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/privacy-policy/

Manylion yr ymgeisydd

Enw'r cwmni / unig fasnachwr																
Cyfeiriad gohebiaeth																
Cyfeiriad cofrestredig																
Rhif cofrestru																
Gwefan																
Manylion cyswllt	<table><tr><td>Swyddfa</td><td>Prif enw cyswllt</td><td><input type="text"/></td></tr><tr><td>Rhif ffôn</td><td></td><td></td></tr><tr><td><input type="text"/></td><td>Rôl</td><td><input type="text"/></td></tr><tr><td>E-bost</td><td>Rhif ffôn</td><td><input type="text"/></td></tr><tr><td><input type="text"/></td><td>E-bost</td><td><input type="text"/></td></tr></table>	Swyddfa	Prif enw cyswllt	<input type="text"/>	Rhif ffôn			<input type="text"/>	Rôl	<input type="text"/>	E-bost	Rhif ffôn	<input type="text"/>	<input type="text"/>	E-bost	<input type="text"/>
Swyddfa	Prif enw cyswllt	<input type="text"/>														
Rhif ffôn																
<input type="text"/>	Rôl	<input type="text"/>														
E-bost	Rhif ffôn	<input type="text"/>														
<input type="text"/>	E-bost	<input type="text"/>														

Gwybodaeth am y cwrs a hyfforddwr y cwrs

Pa fath o awdurdodiad darparwr hyfforddiant yr ydych yn gwneud cais amdano?	Pob dewis cwrs <input type="checkbox"/> DPP yn unig <input type="checkbox"/> Ychwanegu at y DPP i bob dewis cwrs <input type="checkbox"/>		
Ydych chi'n gwneud cais am gymeradwyaeth cwrs?	Ydw <input type="checkbox"/> Rhestrwch bob cwrs rydych yn bwriadu ei gynnal.	Nac Ydw <input type="checkbox"/> Nodwch enw'r sefydliad ac enw'r cwrs/cyrsiau rydych yn bwriadu eu darparu.	
Os nad yw'r cais ar gyfer unigolyn, rhestrwch y cymwysterau a'r profiad gofynnol sydd eu hangen arnoch gan eich hyfforddwyr?*	Os caiff eich cwrs ei gyflwyno ar-lein, dylech gynnwys mynediad i'r cyfleuster ar-lein (h.y. URL a chod cyfrin os yw'n berthnasol).		
Enw'r hyfforddwr / hyfforddwyr neu'r unig fasnachwr*			
Sut byddwch chi'n monitro eich hyfforddwyr*			
Eglurwch sut rydych yn sicrhau bod cynnwys eich cwrs/cyrsiau yn gyfredol ac yn berthnasol yng Nghymru			

Ydych chi'n darparu hyfforddiant i landlordiaid / asiantau

Na

Ydw

Os ydych, rhowch fanylion (dylai hyn gynnwys teitlau cyrsiau, hyd, amlder a nifer y cynrychiolwyr)

Sut rydych chi'n adolygu ac yn gweithredu unrhyw adborth a roddir gan y cyfranogwyr?*

Amodau safonol awdurdodi darparwyr hyfforddiant

1. O gael eich awdurdodi, cewch chi a/neu eich cwmni gyflwyno'r cwrs/cyrsiau sydd wedi'u nodi ar eich ffurflen gais a chaiff y rhain eu cymeradwyo dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014.
2. Dim ond dan enw'r darparwr cymeradwy sydd wedi'i nodi ar eich cais y cewch chi ddarparu'r cwrs/cyrsiau sydd wedi ei/eu (h)enwi ar eich cais. Nid yw'r awdurdodiad hwn yn caniatáu i sefydliad arall ddarparu'r cwrs/cyrsiau ar eich rhan heb ganiatâd datganedig gan Rhentu Doeth Cymru
3. Rhaid defnyddio brand Rhentu Doeth Cymru yn unol â chanllawiau'r brand ar bob adeg.
4. Rhaid i chi roi'r dull dilysu ar waith yn berffaith unol â gofynion cymeradwyo cwrs a gyhoeddwyd dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014. Rhaid i Rhentu Doeth Cymru gytuno ar unrhyw newidiadau i'r dull dilysu cyn iddyn nhw gael eu rhoi ar waith.
5. Rhaid i chi ddiweddarau sleidiau cyflwyniad a darpariaeth hyfforddiant er mwyn iddynt adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol i faes llafar y cwrs cymeradwy ar unwaith.
6. Mae'n rhaid i'r profiad a'r cymwysterau gofynnol sydd wedi'u nodi yn eich cais fod yn ofynnol gan bob hyfforddwr y mae eich cwmni'n ei gyflogi i ddarparu cyrsiau Rhentu Doeth Cymru a gymeradwyir
7. Dim ond yr hyfforddwyr sydd wedi'u rhestru ar eich cais sydd wedi'u hawdurdodi i ddarparu cyrsiau hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru cymeradwy. Mae'n rhaid rhoi gwybod i Rhentu Doeth Cymru os bydd unrhyw hyfforddwr yn stopio darparu'r cwrs/cyrsiau. Cyn i hyfforddwyr newydd gael eu hychwanegu, rhaid i Rhentu Doeth Cymru gymeradwyo hynny; hyd nes bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi, ni chaiff hyfforddwyr newydd ddarparu cyrsiau.
8. Rhaid i bob hyfforddwr (a phersonau cysylltiedig â'r sefydliad/cwmni) fod yn addas a phriodol. Os oes gan hyfforddwr neu unrhyw un cysylltiedig â nhw, yn ffurfiol ai peidio, euogfarnau heb eu treulio fel y rhai sydd wedi'u rhestru isod, rhaid i Rhentu Doeth Cymru gael gwybod er mwyn i benderfyniad gael ei wneud o ran p'un a fydd hynny'n effeithio ar statws addas a phriodol yr unigolyn. Dyma restr o droseddau perthnasol:
 - (a) Unrhyw drosedd sy'n cynnwys: twyll neu anonestrwydd arall, trais, arfau tân neu gyffuriau; unrhyw drosedd a restrir yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003; troseddau sy'n denu gofynion hysbysu);
 - (b) gwahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon a ymarferir ar sail unrhyw Nodwedd a Ddiogelir yn adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010, neu erlid person arall yn groes i'r Ddeddf, neu'n gysylltiedig â pharhad unrhyw fusnes.
 - (c) Torri unrhyw ddarpariaeth o'r gyfraith sy'n gysylltiedig â thai neu landlordiaid/tenantiaid, er enghraifft: wedi troi tenant allan yn anghyfreithlon; gwrthodwyd trwydded dan Ddeddf Tai 2004; cafodd trwydded wedi'i dirymu am dorri unrhyw amodau o dan Ddeddf Tai 2004; wedi bod yn destun Gorchymyn Rheoli dan Ddeddf Tai 2004; wedi methu â chydymffurfio â Hysbysiad Tai (sy'n gofyn am waith ac ati) a wasanaethir gan awdurdod lleol; bod yn destun cwynion gan denantiaid neu ffynonellau eraill am achos difrifol o dor-amod neu sawl achos o dor-amod trwydded dan Ddeddf Tai 2004.
- Yn ogystal â hynny, rhaid i chi a/neu eich sefydliad gael y cadarnhad angenrheidiol gan bob un o'ch hyfforddwyr sy'n landlordiaid eiddo yng Nghymru y byddan nhw'n cynnal eu heiddo'n unol â deddfwriaeth a Chod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru ym mhob achos.
9. Rhaid i chi gyflwyno ffigurau bob chwarter gan gynnwys cyfanswm yr asiantau a/neu landlordiaid sydd wedi cwblhau'r cwrs/cyrsiau sydd wedi ei/eu henwi ar eich cais. Rhaid i chi roi'r ffigurau chwarterol o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i Rhentu Doeth Cymru wneud y cais.
10. Rydych chi a/neu eich sefydliad gytuno i gael eich archwilio gan Rhentu Doeth Cymru fel sy'n ofynnol yn adran 10 Rheoliadau Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant (Cymru) 2015 (mae copi wedi'i amgáu).

Mae hawl gennych i wneud sylwadau am yr amodau y cynigir eu hatodi i unrhyw Awdurdodiad a roddir. Ticiwch un yn unig:

Dim sylwadau i'w gwneud

Sylwadau wedi'u cynnwys gyda'r cais

Sylwadau i'w cyflwyno o fewn 14 diwrnod

Printiwch Enw

Dyddiad

Llofnod

Gallwch ddefnyddio'r lle hwn i nodi unrhyw sylwadau ynghylch yr amodau safonol yr ydych am i ni eu hystyried.

Dull talu

Cyfeiriwch at y tabl ffioedd yn yr adran ganllawiau am y ffi briodol ar gyfer eich cais.

Ticiwch y dull talu a ddewisir:

- Anfonwch anfoneb ataf
- Siec amgaeedig wedi'i gwneud yn daladwy i: Rhentu Doeth Cymru

Swm y siec

- Cerdyn debyd/credyd (Visa, MasterCard neu Maestro)

Byddwn yn cysylltu â chi i gael manylion eich cerdyn. Nodwch faint o'r gloch sydd orau i gysylltu â chi a beth yw'ch rhif ffôn:

Sicrhau bod y cais yn iawn

Cyn anfon y ffurflen hon gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Darllen a deall y canllawiau a'r gofynion awdurdodi darparwyr hyfforddiant.
- Gwirio a gwneud y taliad perthnasol (efallai y bydd eich cais yn cael ei ohirio o ganlyniad i daliad anghywir).
- Cwblhau holl adrannau perthnasol y ffurflen hon.
- Amgáu copïau o CVs a hyfforddiant/cymwysterau ar gyfer yr holl hyfforddwyr presennol.
- Darparu sampl o sleidiau PowerPoint a ddefnyddir i ddarparu hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth.
- Amgáu ffurflenni adborth cyrsiau.
- Llofnodi a dyddio'r datganiad.

Sylwer: Rydym yn codi tâl am bob cais ni waeth p'un a yw'n llwyddiannus neu beidio.

Drwy lenwi'r ffurflen hon, rydych yn cydsynio i'ch cyrsiau gael eu hysbysebu ar wefan Rhentu Doeth Cymru.

Os byddwch yn rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn eich cais, gallai eich cais gael ei wrthod a/neu gallai'r gymeradwyaeth ar gyfer eich hyfforddwr gael ei thynnu'n ôl.

Llofnod

Dyddiad

Dychwelwch y ffurflen wedi ei chwblhau i:

**Rhentu Doeth Cymru,
Blwch SP 1106,
Caerdydd,
CF11 1UA**

**E-bost: hyfforddianrhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk
Ffôn: 03000 133344**